

---

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 03.06.19

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Edgar Wyn Owen, Dafydd Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Elfed Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2019 – 2020

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Annwen Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2019 – 2020

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Sïon Jones

Croesawyd y Cyngorydd Gareth Jones fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog

Diolchodd y Cyngorydd Peter Read i aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth tra yn Gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu.

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Ebrill 11eg 2019 fel rhai cywir.

### 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion Is bwyllgorau a gynhaliwyd 12.4.19 a 20.3.19

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:20am